Hawdd ei Ddeall

# Buddsoddiad Cyfalaf i'r Celfyddydau

## Cyllid ar gyfer sefydliadau celfyddydol, adeiladau a lleoliadau yng Nghymru



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Mehefin 2025

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Efallai y byddwch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu chi.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl Cyngor Celfyddydau Cymru. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** www.celf.cymru

**E-bost:** grantiau@celf.cymru

**Ffôn:** 03301 242733

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


**Am y Cyllid Buddsoddiad Cyfalaf i'r Celfyddydau....................4**

**Beth ydy prosiect Cyfalaf?............................................................5**

**Beth fydd y cyllid yn ei gefnogi?..................................................6**

**Sut fyddwn ni'n gwneud penderfyniad.......................................9**

**Proses Gwneud Cais ........................................................................ 14**

**Pwy fydd yn penderfynu?............................................................ 15**

**Mwy am y rhaglen ......................................................................... 17**

# Am y Cyllid Buddsoddiad Cyfalaf i'r Celfyddydau



Rydyn ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid ar gyfer sefydliadau celfyddydol, adeiladau a lleoliadau.



Mae'r cyllid am gyfnod penodol o amser.



Rhaid i'r sefydliad sy'n gwneud cais fod â rhaglenni celfyddydol, defnyddwyr ac ymwelwyr.




**Pwysig** – Rhaid i chi  allu dechrau a gorffen eich prosiect erbyn **5 Mawrth 2026**.



Fe fydd angen i chi ddangos i ni ar beth rydych chi wedi gwario'r arian.

# Beth ydy prosiect Cyfalaf?



Mae'n meddwl gwario arian ar bethau fel adeiladau ac offer.



Os oes angen i chi wella rhywbeth sydd gennych chi yn barod, mae angen i chi ddangos sut fydd yr arian yn helpu. A fydd yn ei helpu i bara'n hirach, neu i fod o ansawdd gwell?



Er enghraifft, os ydych chi'n prynu goleuadau newydd, mae angen i chi ddangos y bydd yn gwella ansawdd y lleoliad.



Mae angen i chi feddwl am yr amgylchedd ac unrhyw effeithiau y bydd y prosiect yn ei gael arno.



Mae angen i chi feddwl am yr effeithiau y bydd arian ychwanegol yn ei gael ar y prosiect. Fe fydd angen iddo ei wneud yn gryfach.

# Beth fydd y cyllid yn ei gefnogi?



Rydyn ni'n credu y bydd llawer o bobl yn gofyn am help gan y gronfa yma. Fyddwn ni ddim yn gallu cefnogi pawb.




Meddyliwch am beth fyddwch chi'n ei wneud nesaf, os nad ydych chi'n cael y cyllid. Neu os ydych chi'n cael llai o arian.

Rydych chi'n gallu gwneud cais am 1 o'r rhain:



- Os ydych chi'n gwneud cais am hyd at 250 mil o bunnoedd, rydych chi'n gallu gwneud cais am 90 ym mhob 100 punt o gyfanswm y costau. Mae hyn hefyd yn cael ei alw yn 90%.



- Os ydych chi'n gwneud cais am dros 250 mil o bunnoedd, fe ddylech chi  wneud cais am 75 ym mhob 100 punt. Mae hyn hefyd yn cael ei alw yn 75%.



Fe fydd angen i chi ddangos i ni sut fyddwch chi'n talu am weddill y costau.

Dyma rai enghreifftiau o brosiectau sydd yn gallu cael eu hariannu:



- Gwneud gwelliannau i adeiladau. Yn enwedig pan mae'n cefnogi eich cymuned.



- Arian ar gyfer ymchwilio i brosiectau.



- Prynu offer newydd. Er enghraifft, ar gyfer gwella newidiadau digidol.



- Gwneud lle yn fwy **hygyrch**. Mae **hygyrch** yn meddwl bod rhywbeth yn gallu cael ei ddefnyddio yn hawdd gan rywun, beth bynnag ydy eu anghenion.



- Gwneud newidiadau a fydd yn cefnogi'r amgylchedd.

Fyddwn ni ddim yn ariannu:



- Offerynnau cerdd.



- Prosiectau a fydd angen mwy o arian cyhoeddus.

# Sut fyddwn ni'n gwneud penderfyniad

Fe fyddwn ni'n edrych ar 3 maes:



1. **Cymhwysedd**. Mae hyn yn meddwl bod rhaid i'ch sefydliad neu adeilad fod wedi'i leoli yng Nghymru.




Mae gennym ni ragor o wybodaeth am ydy eich sefydliad yn gallu gwneud cais yma: arts.wales/cy/cymhwysedd-sefydliadau




Sylwch nad ydy **Cwmnïau Cyfyngedig trwy Gyfranddaliadau** yn gallu gwneud cais am y cyllid yma.




Rhaid i'r adeilad hefyd ddilyn deddf o'r enw **y Ddeddf Cydraddoldeb**.

## 2. Blaenoriaethau Cynllun - beth sy’n bwysig




Mae hyn yn meddwl y nodau pwysicaf yn eich prosiect.



Fe fydd angen i chi ddweud wrthyn ni sut fydd y prosiect yn gwneud eich cyllid yn fwy sefydlog.



Fe fydd angen i chi ddweud wrthyn ni sut fydd y prosiect yn eich gwneud chi’n fwy cyfeillgar i’r amgylchedd.



Fe fydd angen i chi ddweud wrthyn ni sut fydd y prosiect yn gwneud yr adeilad yn fwy **hygyrch**.




Rydyn ni hefyd eisiau gwybod sut mae'r prosiect yn cwrdd â nodau rhai deddfau a chynlluniau pwysig yng Nghymru. Y rhain ydy:




- Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Mae'r fersiwn Hawdd ei Ddeall ar gael yma: [www.llyw.cymru/canllaw-i-ddeddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-dogfen-hawdd-ei-ddeall](www.llyw.cymru/canllaw-i-ddeddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-dogfen-hawdd-ei-ddeall))




- Pedair blaenoriaeth y Prif Weinidog ar gyfer Llywodraeth Cymru (dolen: [www.llyw.cymru/ryn-ni-wedi-gwrando-ryn-ni-wedi-dysgu-ac-ryn-nin-mynd-i-gyflawni-y-prif-weinidog-yn-cyhoeddi-blaenoriaethau-llywodraeth-cymru](www.llyw.cymru/ryn-ni-wedi-gwrando-ryn-ni-wedi-dysgu-ac-ryn-nin-mynd-i-gyflawni-y-prif-weinidog-yn-cyhoeddi-blaenoriaethau-llywodraeth-cymru))




- Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwylliant. (dolen: [www.llyw.cymru/blaenoriaethau-drafft-ar-gyfer-diwylliant-yng-nghymru-2024-i-2030)](www.llyw.cymru/blaenoriaethau-drafft-ar-gyfer-diwylliant-yng-nghymru-2024-i-2030))



Rydych chi'n gallu dweud wrthyn ni am y pethau yma yn y ddogfen Cynnig Prosiect.




**3. Ansawdd y prosiect** - Dywedwch wrthyn ni pa wahaniaeth fydd eich prosiect yn ei wneud. Er enghraifft, i'ch cynulleidfa, eich cymuned neu sefydliad.



Dywedwch wrthyn ni sut fyddwch chi'n rheoli eich prosiect ac unrhyw risgiau.



Dywedwch wrthyn ni sut fyddwch chi'n cwblhau'r prosiect yn yr amser sydd yn cael ei roi.



Dywedwch wrthyn ni am unrhyw gyllid cyfatebol. Mae hwn yn gyllid gan gyllidwyr eraill.



Rydych chi'n gallu dweud wrthyn ni am y pethau yma yn y ddogfen Cynnig Prosiect.

Fe fydd angen i chi hefyd ddweud wrthyn ni am bethau fel:



- Lle mae'r prosiect wedi'i wasgaru ar draws Cymru.



- Sut fydd y prosiect yn dda i'r cyhoedd a'r math o gelf.




- Os ydych chi wedi cael unrhyw gyllid arall fel hyn.

# Proses Gwneud Cais



Rhaid i chi siarad ag un o’n swyddogion cyn i chi wneud cais. Anfonwch e-bost i ni yn cyfalaf@celf.cymru. Dywedwch ychydig wrthyn ni am eich prosiect.




Fe fydd angen i chi wneud cais ar ein porth ar-lein. Os nad ydych wedi defnyddio hwn o’r blaen, fe fydd angen i chi gofrestru. Rydych chi’n gallu dysgu am hyn yma: porth.celf.cymru



Yn y ffurflen gais disgrifiwch y prosiect. Yna rydych chi’n gallu dweud mwy o wybodaeth wrthyn ni yn y Ddogfen Cynnig Prosiect. Fe fyddwn ni’n anfon hwn i chi.



Fe fyddwn ni hefyd yn anfon ffurflen gyllideb i chi i’w llenwi. Fe fydd hyn yn dangos sut fyddwch chi’n gwario’r arian.

# Pwy fydd yn penderfynu?



Fe fydd panel o aelodau yn edrych ar y cais. Fe fyddan nhw'n dod o Gyngor Celfyddydau Cymru.



Yna fe fydd y Pwyllgor Cyfalaf yn gwneud penderfyniad.



Fe fyddwn ni'n rhoi gwybod i chi a ydych chi'n cael y cyllid ai peidio.




Mae angen i chi wneud cais erbyn **2 Gorffennaf 2025**.




Mae'n debyg y byddwn yn penderfynu erbyn diwedd Awst 2025.

## Hygyrchedd



Os oes gennych chi unrhyw **anghenion mynediad neu gymorth**, rydyn ni’n gallu eich cefnogi gyda’ch cais.



Cysylltwch â’n tîm drwy e-bost yn: cymorth.hygyrch@celf.cymru




Neu trwy ein gwefan: arts.wales/cy/cymorth-hygyrchedd

# Mwy am y rhaglen



Dyma wybodaeth mwy manwl am y ffurflen gais. Efallai y byddwch chi angen help gyda rhywfaint o hyn.

**Fe fydd y cais yn gofyn pethau fel:**




- Llenwi rhestr wirio cyn gwneud cais.




- Gwybodaeth gyswllt.

- Gwybodaeth a manylion am y prosiect.




- Math o gelf.



- Mathau o weithgaredd i'w gwneud.




- Gwybodaeth am iaith.



- Lle bydd y prosiect yn digwydd.



- Gwybodaeth am gydraddoldeb. Mae hyn yn meddwl gwybodaeth am drin pobl yn gyfartal ac yn deg.



- Rydych chi’n gallu rhoi gwybodaeth ychwanegol, sydd hefyd yn cael ei alw yn ‘atodiadau’.



- Fe fyddwn ni’n gofyn i chi gwblhau **Dogfen Cynnig y Prosiect**.



- Fe fydd angen i chi lenwi ffurflen gyl-lideb. Mae yna wybodaeth ar sut i wneud hyn. Fe fydd y ffurflen yn adio pethau i fyny i chi ar-lein.




- Fe fyddwch chi angen 3 dyfynbris gan gyflenwyr ar wahân os ydy eitemau'n costio dros £5000.

- Efallai y byddwn ni'n gofyn am wybodaeth arall hefyd. Fel gwybodaeth am gyllid arall.



- Fe fyddwn ni'n gofyn i chi am gostau of-fer a chostau eraill.




- Os ydych chi'n talu am wasanaethau dros £25000, fe fydd angen i chi gwblhau **adroddiad tendr**. Dyma wybodaeth am pam rydych chi wedi dewis y gwasanaeth hwnnw.




- Mae rhai rheolau eraill am y broses **dendro**. Er enghraifft, mae'n rhaid i chi gael proses **dendro agored**. Siaradwch â ni am hyn i gael rhagor o wybodaeth.



- Fe fydd angen i ni wybod am unrhyw ffioedd eraill y mae’n rhaid i chi eu talu.



- Fe fydd angen i ni wybod am unrhyw wasanaethau rydych chi’n eu cael nad oes rhaid i chi dalu amdanyn nhw. Er enghraifft, gan wirfoddolwr, neu ddef-nydd am ddim o adeilad.




- Os ydych chi wedi cofrestru ar gyfer **TAW** (Treth ar Werth), mae angen i chi ysgrifennu ar eich cyllideb unrhyw **TAW** nad ydych chi’n gallu ei hawlio’n ôl.




- Os nad ydych chi wedi’ch cofrestru ar gyfer **TAW**, daliwch i’w gynnwys ar gyl-lideb eich prosiect.



- Meddyliwch am unrhyw arian sydd ei angen ar y prosiect. Mae hyn yn meddwl arian rydych chi’n ei roi o’r neilltu ar gyfer argyfyngau.



- Mae angen i chi hefyd ddweud wrthyn ni am unrhyw gostau eraill.



- Fe fydd angen i ni wybod am yr holl ari-an sydd gan y prosiect yn dod i mewn. Er enghraifft, gan gyllidwyr eraill, neu ari-an mae'r prosiect wedi'i ennill.



Os ydych chi eisiau gwneud cais, mae'r tîm cyfalaf yn gallu rhoi ffurflen gais i chi. Cysylltwch â ni gyda manylion sylfaenol eich prosiect. Yn dweud:

- Beth fydd y prosiect yn ei wneud.

- Faint fydd yn ei gostio.

- Faint fyddwch chi'n gwneud cais amdano.

# Ein manylion cyswllt



**Ebost:** grantiau@celf.cymru



**Ffôn:** 03301 242733

Rydych chi'n gallu ffonio rhwng 9am a 4pm o ddydd Llun i ddydd Gwener

**Twitter/X:** @Arts_Wales




**Website:** celf.cymru